# Ysgol Edern

Lôn Rhos,
Edern,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 8YW

01758 720272
llan.williams@edern.ysgoliongwynedd.cymru
www.ysgoledern.org
@YsgolEdern
/YsgolEdern


09.02.24

## "Platiad mawr, cwmni bach"

Hanner tymor arall wedi fflio heibio! Rydym wedi cael 5 wythnos prysur a dyrys yma yn Ysgol Edern.
Croesawom PC Rhiannon yma ddechrau'r tymor, a bu iddi wneud gwaith ar ymddygiad gwrth-gymdeithasol, a phobl y gallwn ymddiried ynddynt.




Rydym wedi cael llawer iawn o ymwelwyr eraill atom hefyd. Bu i ni gychwyn ein hymgyrch 'Platiad efo'r Plantos' fis yma, lle bu i ni wahodd 9 aelod o'r gymuned i mewn am ginio a sgwrs. Roedd hi mor braf clywed y neuadd y llawn sgwrsio a chwerthin, a rydym yn edrych ymlaen at groesawu mwy atom fis Mawrth. Bu i 'Heno' glywed am ein hymgyrch, a daeth Owain Tudur Jones draw i siarad gyda ni, a'n ffilmio yn sgwrsio gyda ffrindiau'r ysgol. Gallwch weld y clip ar ein tudalen Facebook!







### Thema

Mae pawb wedi bod wrthi'n gweithio yn brysur yn eu dosbarthiadau hefyd. Mae dosbarthiadau Cwmistir a Porthdinllaen wedi bod yn gwneud gwaith ar greaduriaid sydd yn byw mewn gwledydd oer, gan edrych ar Peta'r Pengwin.

Mae dosbarthiadau Rhosgor a Phorth Ysgaden wedi bod yn parhau i edrych ar enwogion, gan edrych ar dywysogion Cymru. Aeth y ddau ddosbarth i Gastell Caernarfon ar gychwyn y tymor - taith ddiddorol a difyr iawn!



Cofiwch y gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgol trwy ein gwefan, a'n gwefannau cymdeithasol. Dyma ambell i ddyddiad pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf!
Cliciwch yma i weld y calendr llawn.

| | |
|---|---|
| **19/02/24** | **Ysgol yn ail-agor** |
| **24/02/24** | **Eisteddfod Cylch** |
| **28/02/24** | **Diwrnod Llysgenhadon Chwaraeon** |
| **29/02/24** | **Cawl a Chân** |
| **4-6/03/24** | **Ymweliad Caerdydd** |
| **04/03/24** | **Diwrnod y Llyfr** |
| **11/03/24** | **Pythefnos Stroliwch a Rholiwch yn cychwyn** |
| **11-13/03/24** | **Nosweithiau Rhieni** |

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*

## Gwasanaeth Anti Nia

Daeth Anti Nia a Lewis draw atom hefyd i'n dysgu am bwysigrwydd maddeuant. Roedd Mrs Hughes yn falch nad oedd Lewis wedi dwyn yr holl fisgedi o'r ystafell staff y tro hwn!



## Diwrnod Diogelwch y We

Cynhalwyd cystadleuaeth i ddathlu Diwrnod Diogelwch y we ar draws y dalgylch. Roedd yn rhaid i staff yr ysgol wneud y penderfyniad anodd o ddewis un poster o bob dosbarth i'w roi ymlaen i weddill y dalgylch. Bu i Elsie o ddosbarth Rhosgor ddod yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Blwyddyn 3 a 4, ac mae hi wedi ennill Micro:bit i fynd adref gyda hi!!!! Llongyfarchiadau i bawb am gystadlu, a da iawn chi. Dyma lun o enillwyr Ysgol Edern.



## Stroliwch a Rholiwch

sustrans STROLIWCH A ROLIWCH 11–22 Mawrth/March 2024 BIG WALK AND WHEEL YN DATHLU 15 MLYNEDD CELEBRATING 15 YEARS

Rydym yn cymryd rhan yn ymgyrch Stroliwch a Rholiwch Sustrans Cymru eto eleni. Beth am fynd ati i chwilio am eich beic, sgwter neu esgidiau cerdded yn barod at yr ymgyrch? Bydd yn digwydd am fythefnos rhwng 11-22/03/24. Mwy o fanylion i ddilyn.

## Llifo'n Llawen

Daeth Mrs Jones draw at ddosbarth Porthdinllaen hefyd i roi gwers ioga a meddwlgarwch. Roedd pawb wedi ymlacio'n llwyr - diolch Mrs Jones!






Ymunwch gyda ni ar ddydd Iau, 29ain o Chwefror i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Dewch i fwynhau cawl cartref gan y plant, ac i'w clywed yn canu ambell i gân i ddathlu dydd ein nawddsant. Bydd y drysau yn agor am 1:30, a mae croeso mawr i bawb! Byddwn yn casglu arian i gael adnoddau newydd i'r ysgol ar y diwrnod.




Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ar ddydd Llun, 19eg o Chwefror. Mwynhewch eich gwyliau haeddiannol!

Diolch yn fawr,
**Ilan Williams**
(Pennaeth Mewn Gofal)

*'Yma'n Ysgol Edern Ysgogwn a Heuwn Had.'*